Swyddfa'r UE | EU Office

# Y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â gadael yr Undeb

Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol | 22 Mai 2017
External Affairs and Additional Legislation Committee | 22 May 2017

## Briff Ymchwil:

### 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau sy'n berthnasol i Gymru o ran gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n cynnwys adrannau ar waith y Cynulliad a Llywodraeth Cymru; ar lefel yr UE; ar lefel y DU; yr Alban ac Iwerddon. Mae'n ymdrin â'r cyfnod rhwng 3 a 17 Mai, er y cyfeirir at ddigwyddiadau diweddarach lle y mae gwybodaeth ar gael ar adeg y drafftio terfynol.

### 2. Datblygiadau yng Nghymru

#### Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol**

*Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yw prif bwyllgor y Cynulliad ar gyfer cydgysylltu gweithgareddau'r Pwyllgorau sy'n gysylltiedig â gadael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Pwyllgor wedi cwblhau ymchwiliad ar y Goblygiadau Posibl i Gymru wrth Adael yr Undeb Ewropeaidd.*

Dyma sesiynau mwyaf diweddar ymchwiliad y Pwyllgor:

- 15 Mai: Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gynghrair Cymunedau Diwydiannol a'r Rhanbarthau Daneg fel rhan o'i ymchwiliad i Ddyfodol Polisi Rhanbarthol. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth hefyd gan yr Athro John Bell, Prifysgol Caergrawnt, yr Athro Paul Craig, Prifysgol Rhydychen a Dr Jo Hunt, Prifysgol Caerdydd fel rhan o'i ymchwiliad i Fil y Diddymu Mawr a chlywodd dystiolaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar yr un mater.

Mae gwybodaeth reolaidd am waith y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol i'w gweld ar flog y Cynulliad: https://blogcynulliad.com/tag/ue/.

Cyhoeddir blogiau'r Gwasanaeth Ymchwil ar Pigion. Y blogiau diweddaraf am Brexit yw Amcangyfrifo'r llinell amser ar gyfer deddfwriaeth Brexit, "Bil y Diddymu Mawr": Beth yw'r



Nigel Barwise, estyniad 6315 neu 03002006315, Nigel.Barwise@Cynulliad.Cymru

Cyfeirnod y Gwasanaeth Ymchwil: 2017/3088

goblygiadau?, a Gadael yr Undeb Ewropeaidd: Beth fyddai goblygiadau masnachu o dan delerau "Sefydliad Masnach y Byd" i economi Cymru?.

### Arall

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn cynnal ymchwiliad i Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru, ac mae wedi cyhoeddi ei adroddiad Dyfodol Polisïau Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig yng Nghymru.

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cynnal yr ymchwiliad a ganlyn: Sut beth fydd hawliau dynol yng Nghymru yn dilyn gadael yr Undeb Ewropeaidd?

Mae 'Goblygiadau gadael yr UE ar y gweithlu meddygol' yn rhan benodol o gylch gorchwyl ymchwiliad cyfredol y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i recriwtio meddygol.

### Newyddion

2 Mai: NFU Cymru yn lansio ei Maniffesto Etholiad Cyffredinol.

3 Mai: UAC yn amlinellu blaenoriaethau amaethyddiaeth ym maniffesto'r etholiad cyffredinol.

5 Mai: Etholiad Cyffredinol 2017 – CLA Cymru yn nodi blaenoriaethau gwledig ar gyfer Cymru.

## 3. Y diweddaraf o'r UE

### Y Cyngor Ewropeaidd

4 Mai: Sylwadau gan y Llywydd Donald Tusk ar ôl ei gyfarfod â Phrif Weinidog Norwy Erna Solberg.

17 Mai: Y Llywydd Tusk yn Senedd Ewrop ar Brexit: "Time is of the essence here, and much is at stake".

### Y Comisiwn Ewropeaidd

3 Mai: Cyfarwyddebau negodi drafft y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer trafodaethau Erthygl 50 gyda'r Deyrnas Unedig.

3 Mai: Y Comisiwn Ewropeaidd yn cymryd cam nesaf ym mhroses Erthygl 50 drwy argymell cyfarwyddebau negodi drafft.

3 Mai: Araith gan Michel Barnier yn y gynhadledd i'r wasg ar fabwysiadu argymhelliad y Comisiwn ar y cyfarwyddebau negodi drafft.

5 Mai: Araith gan Michel Barnier yn Seithfed Cynhadledd 'State of the Union', Athrofa Prifysgol Ewropeaidd – siaradodd am Ddiogelu Hawliau Dinasyddion yn y Trafodaethau â'r DU.

10 Mai: Y Comisiwn yn lansio myfyrdod ar harneisio globaleiddio .



Nigel Barwise, estyniad 6315 neu 03002006315. Nigel.Barwise@Cynulliad.Cymru

Cyfeirnod y Gwasanaeth Ymchwil: 2017/3088

11 Mai: Rhagolwg Economaidd y Gwanwyn. Rhagolwg y DU.

11 Mai: Araith gan Michel Barnier yn Nhai'r Oireachtas, Dulyn.

17 Mai: Araith gan y Llywydd Juncker yn sesiwn lawn Senedd Ewrop ar gasgliadau'r Cyngor Ewropeaidd Arbennig (Erthygl 50) ar 29 Ebrill 2017.

17 Mai: Tor cyfraith mis Mai - y Comisiwn yn galw ar y DU i drosi rheolau newydd ar gychod hamdden a'u injan, ac mae'r Comisiwn wedi agor achos o dor cyfraith yn erbyn 14 o Aelod-wladwriaethau (gan gynnwys y DU) am fethu â rhoi gwybod am weithredu sawl rheol gwastraff yr UE.

## Senedd Ewrop

3 Mai: Cysylltiadau EU-NATO: dadl gydag Ysgrifennydd Cyffredin NATO Stoltenberg.

3 Mai: ASEau y Pwyllgor yn croesawu cydweithrediad EU-NATO.

5 Mai: Disgwyliadau mawr: Ewropeaid yn datgelu beth yr hoffent yr UE wneud mwy ohono .

9 Mai: Dyfodol yr UE: harneisio globaleiddio.

11 Mai: Gadael yr Undeb Ewropeaidd: ASEau am i'r UE a'r DU ofalu am hawliau dinasyddion yn gyntaf.

16 Mai: ASEau am ddiogelu dinasyddion rhag effeithiau negyddol globaleiddio.

17 Mai: ASEau yn croesawu undod ar Brexit ac yn galw am ddiwygio'r UE - ASEau yn trafod y canllawiau ar gyfer y trafodaethau â'r DU a'r telerau gadael, a fabwysiadwyd gan Uwch-gynhadledd yr UE ym mis Ebrill, gyda Llywydd y Cyngor Ewropeaidd, Donald Tusk a'r Comisiwn.

17 Mai: Mae UE cryf ac unedig yn hanfodol i gael Cenhedloedd Unedig cryf - António Guterres, Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig.

## Newyddion Ewropeaidd

5 Mai: Yr UE yn mapio cynllun am gylchoedd 4 wythnos o sgyrsiau ar Brexit. (Politico)

11 Mai: Addewid Iwerddon Michel Barnier. (Politico)

12 Mai: Tony Blair yng nghyfarfod EPP yn Wicklow ar Brexit. (Politico)

16 Mai: (Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd) Ni all y cytundeb masnach rydd gyda Singapore, yn ei ffurf bresennol, gael ei benderfynu gan yr Undeb Ewropeaidd ar ben ei hun - mae'r cytundeb wedi'i rannu â'r aelod-wladwriaethau ym maes buddsoddi tramor anuniongyrchol (buddsoddiadau 'portffolio' a wneir heb unrhyw fwriad i ddylanwadu ar reoli'r gwaith) a'r weithdrefn sy'n llywodraethu'r setliad anghydfod rhwng buddsoddwyr a Gwladwriaethau. Roedd y DU wedi ymuno â'r rhan fwyaf o aelod-wladwriaethau wrth ddweud na all yr UE ar ben ei hun benderfynu ar y cytundeb.

16 Mai: Dyfarniad llys yn gwneud Brexit yn anoddach. Neu'n haws. (Erthygl yn y Politico ar ddyfarniad cytundeb masnach Singapore heddiw)

## 4. Datblygiadau yn y DU

### Llywodraeth y DU

7 Mai: Gwlad Prif Weinidog Prydain ag Arlywydd newydd Ffrainc, Macron.

### Tŷ'r Cyffredin

Dau Dŷ 'r Senedd ar doriad tan yr Etholiad Cyffredinol.

### Tŷ'r Arglwyddi

*Mae Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi a'i chwe is-bwyllgor yn cynnal "cyfres gydgysylltiedig o ymholiadau ar y materion allweddol a fydd yn codi yn y trafodaethau sydd i ddod ar adael yr Undeb Ewropeaidd".*

3 Mai: Cyhoeddodd Is-bwyllgor Ynni a'r Amgylchedd yr UE ei adroddiad Brexit: amaethyddiaeth, yn enwedig ar y goblygiadau o adael Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE a'r Farchnad Sengl.

### Newyddion

15 Mai: Busnesau yn Paratoi i Dorri Cysylltiadau'r Gadwyn Gyflenwi Rhwng y DU a'r UE i Osgoi Tariffau Brexit (Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi).

## 5. Yr Alban

### Senedd yr Alban

11 Mai: Cynhaliodd y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth, Ewrop a Chysylltiadau Allanol sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog ar gyfer Trafodaethau'r DU ar Le'r Alban yn Ewrop, Michael Russell MSP.

### Llywodraeth yr Alban

3 Mai: Diwygio'r PAC - Ysgrifennydd Materion Gwledig yn gosod syniadau.

## 6. Y cysylltiadau rhwng y DU ac Iwerddon

2 Mai: Cyhoeddi Iwerddon a'r trafodaethau ar y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

9 Mai: Arweiniodd y Taoiseach ddadl ar Iwerddon a Thrafodaethau ar y DU yn gadael yr UE.

11 Mai: Cyfnewid barn gyda Mr Michel Barnier, Prif Drafodwr y Tasglu ar gyfer Paratoi a Chynnal Trafodaethau â'r Deyrnas Unedig.



Nigel Barwise, estyniad 6315 neu 03002006315, Nigel.Barwise@Cynulliad.Cymru

Cyfeirnod y Gwasanaeth Ymchwil: 2017/3088

## 7. Adroddiadau eraill a gyhoeddwyd

*Tŷ 'r Cyffredin*

Llinell amser Brexit: digwyddiadau yn arwain at y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Deddfu ar gyfer Brexit: Bil y Diddymu Mawr.

*Arall*

Cymryd rheolaeth yn ôl dros bolisi masnach (Institute for Government)

Canlyniad cyfarfod arbennig y Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50) ar 29 Ebrill 2017 (Gwasanaeth Ymchwil Senedd Ewrop)

Gweithredu Brexit: Mewnfudo (Institute for Government)



Nigel Barwise, estyniad 6315 neu 03002006315, Nigel.Barwise@Cynulliad.Cymru

Cyfeirnod y Gwasanaeth Ymchwil: 2017/3088